Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Gofal Bryn y Môr**

**Ysgol Bryn Y Môr**
**St. Albans Road Brynmill**
**Swansea**
**SA2 0BP**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Clwb Gofal Bryn y Môr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y tu allan i Oriau Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Corff Llywodraethu Ysgol Bryn y Môr |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolwg gyntaf yn dilyn cofrestriad |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

**Crynodeb**

Mae plant yn cyfathrebu'n hyderus gan fod eu dymuniadau yn cael eu hystyried. Maent yn teimlo'n hapus ac yn cael cyfleoedd da a phriodol ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad. Mae plant yn annibynnol ac yn gwneud pethau drostynt eu hunain gyda hyder.

Mae staff yn deall polisïau'r lleoliad ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant y plant. Mae staff yn rheoli risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant. Maent yn fodelau rôl da, yn weithgar yn hybu'r Gymraeg ac yn adeiladu hyder a hunan-fri y plant yn eu gofal.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn darparu mesurau effeithiol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch y plant. Maent yn cadw asesiadau risg clir ac mae offer diogelu'r adeilad yn eu lle. Maent yn darparu ystod o adnoddau da ac yn sicrhau bod gan y plant mynediad i bob peth.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn darparu polisïau clir ac yn cydymffurfio â'r holl reoliadau â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn cefnogi eu staff yn dda ac yn sicrhau hyfforddiant pwrpasol ar gyfer eu rolau. Mae ganddynt bartneriaethau effeithiol gyda'r ysgol ac mae rhieni yn gefnogol o'r lleoliad.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae llais y plant yn ffactor cryf. Mae plant yn cyfathrebu'n hyderus gan fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd eang i wneud dewisiadau ac yn gyfforddus i ofyn am adnoddau penodol. Mae llawer o blant wrth eu bodd ac yn mynegi mwynhad. Wrth gyrraedd, mae plant yn cynllunio beth i wneud yn dilyn amser byrbryd. Er enghraifft, mae plant yn dewis eu gweithgareddau, ac mae ganddynt y rhyddid i dreulio eu hamser ar un gweithgaredd neu symud o un ardal i'r nesaf.

Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn cyrraedd yn frwdfrydig a gweithgar ac yn fodlon eu byd. Maent yn egluro pa ddiwrnodau y maent yn eu mynychu a beth y maent yn eu hoffi am y lleoliad. Dywedodd plant eu bod yn hoffi gweld ffrindiau, bod yng nghwmni'r staff ac ymlacio ar ôl ysgol. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac wedi meithrin cydberthnasau da iawn. Maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a gyda'r staff yn gyson, gyda llawer yn cyfathrebu'n hyderus. Mae llawer o blant yn egnïol wrth chwarae gydag eraill, neu wrth fwrdd yn chwarae gêm unigol gydag aelod o staff. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn chwarae gêm ar lawr y neuadd gydag aelod o staff. Gwelir y plant yn trafod rheolau, rhannu syniadau, cydweithio, aros tro, dangos amynedd a chael hwyl. Maent yn cael rhyddid sylweddol i archwilio'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored, ac yn dangos parch at eiddo a phob un yn gyson. Mae plant yn dilyn rheolau sydd yn effeithio arnynt hwy ac ar eraill. Er enghraifft, aros mewn rhes i fynd i'r tai bach neu i'r ardal allanol. Yn ystod amser byrbryd, mae plant yn gyfforddus iawn i ofyn am fwydydd o'u dewis nhw, ac yn hollol gartrefol yng nghwmni'r staff.

Mae plant yn mwynhau eu chwarae ac yn penderfynu ar liwt eu hunain. Maent yn ymwybodol o'r adnoddau sydd wedi eu storio yn y neuadd, a'u gallu i ddefnyddio gliniaduron ac offer TGCh. Mae plant yn gyfarwydd â chynnwys y siediau allanol ac yn cael mynediad i bob math o adnoddau da. Er enghraifft, peli, cylchau a bagiau ffa. Wrth i blant ddewis yn annibynnol, mae hyn yn arwain at ymdeimlad da o gyflawni a mwynhad. Nid oes unrhyw bwysau ar blant i gwblhau gweithgareddau penodol.

Mae plant yn cael cyfleoedd da a phriodol ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad sydd yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau. Maent yn cael eu cefnogi i feddwl am yr hyn maent yn eu gwneud. Gwelsom blant hŷn yn cynnig esboniadau clir i blant iau, wrth eu helpu a'u hannog i ddilyn gemau ar y gliniaduron. Mae plant yn annibynnol ac yn gwneud pethau drostynt eu hunain gyda hyder. Er enghraifft, dewis eu bwyd, casglu eu bagiau a'u cotiau, trosglwyddo negeseuon a defnyddio'r tai bach. Maent yn gallu dangos barn, gofyn cwestiynau a chynnig syniadau eu hunain. Dywedodd un plentyn am ei boddhad o fod yn ffrind i blant newydd y lleoliad ac yn mwynhau'r cyfrifoldeb a'r rôl o fod yn gymorth i eraill.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae staff yn brofiadol ac yn deall y polisïau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol y plant. Mae staff yn rheoli risgiau yn barhaol ac yn effeithiol, ac yn ymwybodol o ddiogelwch y plant a'u hunain. Gwelsom staff yn annog plant i olchi eu dwylo cyn iddynt baratoi a chyflwyno byrbryd, a dilyn gweithdrefnau hylendid yn glir wrth wneud. Roddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae staff yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn fanwl. Mae staff yn cofnodi a rannu pryderon yn y man a'r lle mewn ffordd gyfrinachol, brydlon ac effeithiol drwy ddefnyddio meddalwedd penodol. Mae trefniadau'r clwb yn cael eu cyfathrebu yn glir gan sicrhau bod staffio yn gywir pan yn gadael y neuadd i fynd i'r tai bach, neu i'r ardal allanol. Mae staff yn cerdded y daith i'r tai bach gyda'r plant ac wrth sgwrsio, yn cynnig cefnogaeth a chanmoliaeth. Maent yn amlwg wedi adeiladu perthnasau agos ac maent yn dangos mwynhad wrth glywed y plant yn rhannu straeon y dydd. Mae staff yn nabod y plant yn dda iawn ac yn ymwybodol o'u hanghenion unigol. Maent yn gwybod am eu dyletswyddau ac arferion y lleoliad i ddiogelu a gofalu am bob plentyn. Er enghraifft, esboniodd y person â gofal am weithdrefnau gofal plant ag alergeddau a gwelsom sach yn cynnwys meddyginiaeth mewn lle amlwg yn y neuadd ond allan o afael y plant.

Mae staff yn ymateb ar bob cyfle i ofynion a chwestiynau plant ac mae'r rhyngweithio yn gyson a chynnes. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Mae staff yn fodelau rôl da i'r plant ac yn gosod arferion cadarn yn eu lle er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant o ran ymddygiadau da a chyson. Maent yn symud o amgylch yn barhaol i gefnogi plant ac yn eistedd wrth fyrddau neu ar y llawr i chwarae. Mae lefel y cyfathrebu rhwng y staff a'r plant yn dangos tystiolaeth gref bod plant yn hapus, yn gyfforddus ac yn gartrefol yng nghwmni'r staff.

Mae staff yn brofiadol a gwybodus ac mae ganddynt ddealltwriaeth a gwybodaeth dda o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar eu profiadau dysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau'r plant. Wrth gefnogi plant yn eu gweithgareddau fel arlunio, gemau, gwaith technegol a chwaraeon, maent yn cynnig rhyddid ac annibyniaeth. Wrth ddilyn diddordebau'r plant, maent yn adeiladu hyder a hunan-fri bob plentyn. Mae staff yn weithgar yn hybu'r Gymraeg ac mae staff a phlant yn cyfathrebu'n hyderus yn iaith eu hamgylchedd.

## Yr Amgylchedd Da

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn darparu mesurau a pholisïau effeithiol er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau ar gyfer diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr ardal agored. Lleolir y clwb o fewn ysgol ac mae’r adeilad yn cynnig amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar sydd â gwagle mawr, agored a diogel. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau trefniadau glanhau trwyadl sydd yn adlewyrchu arferion hylendid da. Maent yn cadw asesiadau risg pwrpasol ynghyd ag asesiadau perygl tân effeithiol a chywir ac mae y rhain yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Gwelsom dystiolaeth bod tystysgrifau ac offer diogelu’r adeilad yn eu lle. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn rheoli rhifau a chymarebau staff i blant yn gywir ac yn goruchwylio’r plant yn dda. Maent yn cadw cofrestr ddyddiol lle mae plant a staff yn cael eu harwyddo mewn ac allan o’r clwb yn gywir. Mae’r safle yn cynnig lefel da o ddiogelwch lle mae’r prif adeilad dan glo ar bob adeg. O ganlyniad, mae plant yn cael y rhyddid i symud yn annibynnol ac yn ddiogel o amgylch ardaloedd penodedig y lleoliad. Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad system arwyddo wrth i ymwelwyr gyrraedd adeilad yr ysgol a llyfr ymwelwyr y clwb yn y neuadd. Maent yn gosod arwydd ar brif ddrws y neuadd ar gyfer rhieni a gofalwyr i ddangos ble i gasglu plant os ydynt yn chwarae tu allan.

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle mewnol yn cynnig amgylchedd da ar gyfer chwarae yn ogystal ag ymestyn sgiliau’r plant. Mae’r neuadd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth i staff baratoi’r gwagle yn ofalus er mwyn i blant cael y profiadau gorau posib. Er enghraifft, lle i arbrofi, chwarae yn greadigol, datblygu sgiliau arlunio, sgiliau technoleg, a sgiliau cystadlu. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn storio gwaith papur y clwb yn gyfrinachol.

Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn darparu ystod o adnoddau da er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, blociau adeiladu, doliau, gemau, pabell a theganau amrywiol. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau fod adnoddau eang yn cael eu gosod allan, neu wedi eu storio yn agos, ac mae gan blant mynediad rhwydd iddynt. Mae’r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnwys iard fawr ac ardaloedd cysgod sydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i blant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad weledigaeth gref ac yn rhannu hwn ag eraill. Maent yn cynnig datganiad o bwrpas manwl sydd yn adlewyrchu trefniadau ac oriau agor y clwb. Maent yn darparu polisïau clir ac yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn drefnus o ran adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion yn rheolaidd. Mae'r person â gofal yn cadw trefn a'r ffeiliau staff, ffeiliau plant ac ar gofrestrau. Maent yn dilyn gweithdrefnau meddyginiaeth a damweiniau ac yn cadw trefn cywir trwy gwblhau dogfennaeth a chyfathrebu'r wybodaeth i rieni yn effeithlon.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cyflwyno adolygiad ansawdd gofal yn flynyddol ac yn dangos tystiolaeth eu bod yn gwrando ac ystyried barn y sawl sydd yn defnyddio'r lleoliad. O ganlyniad, maent yn gweithio'n barhaol i ddatblygu a gwella.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad wedi sefydlu tîm o staff sydd yn cydweithio'n agos ac effeithiol. Dywedodd staff eu bod wrth eu bodd, ac er bod y gwaith ar ddiwedd diwrnod ysgol, eu bod yn mwynhau profiadau gwahanol gyda phlant y lleoliad. Maent yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi yn rheolaidd gyda thystysgrifau gorfodol i gyd yn eu lle. Dywedodd staff eu bod yn gallu codi materion yn rhwydd a bod eu gofynion unigol yn cael eu hystyried. Mae'r Gymraeg yn elfen gref o'r lleoliad ac mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r iaith yn ogystal â hybu'r diwylliant Cymreig.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal da iawn. Maent yn manteisio ar gysylltiadau cryf iawn gyda'r ysgol sydd yn sicrhau cyfathrebu effeithiol. Mae staff yn nabod y plant yn dda ac yn gallu eu cefnogi ar bob lefel. Mae rheini yn gefnogol ac yn ganmoladwy o'r lleoliad. Gwelsom enghreifftiau clir o berthnasoedd da iawn a chyfathrebu clir. Er enghraifft, rhieni yn dangos eu mwynhad a'u diolch wrth dderbyn newyddion gan staff tra'n casglu eu plant.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| | Ni nodwyd unrhyw Argymhellion SGC yn yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/09/2023